# Cefnogi Pobl Gwent

## Cynllun Rhanbarthol 2017 – 2020

## HAWDD EI DDEALL

## Diweddariad Blynyddol 2018-2019



*Cydweithio dros bobl gyda chefnogaeth*

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **3** |
| **Beth yw Cefnogi Pobl?** | **4** |
| **Gweithio gyda'n gilydd** | **5** |
| **Gwasanaethau** | **6** |
| **Heriau** | **7** |
| **Ymgynghoriad** | **8** |
| **Beth ydyn ni wedi'i wneud?** | **9** |
| **Beth fyddwn ni'n ei wneud?** | **10** |
| **Gyda phwy y gallaf gysylltu?** | **11** |

# Cyflwyniad




Dyma'n cynllun ar gyfer gwasanaethau Cefnogi Pobl yng Ngwent.



Fe wnaethom ysgrifennu'r cynllun hwn ar ôl gwrando ar lawer o bobl ac edrych ar lawer o wybodaeth am beth mae pobl ei angen

Rydyn ni hefyd wedi bod yn edrych ar yr holl wasanaethau sydd eisoes yn darparu cefnogaeth cysylltiedig â thai yng Ngwent.



Rydym eisiau gwybod beth ydych chi'n feddwl am y cynllun yma.

Darllenwch drwy'r cynllun os gwelwch yn dda ac ateb y cwestiynau ar y ffurflen adborth.

# Beth yw Cefnogi Pobl?

Mae Cefnogi Pobl yn talu am wasanaethau i helpu atal pobl yng Ngwent rhag colli eu cartrefi ac i helpu pobl yng Ngwent i fyw'n annibynnol



Mae Cefnogi Pobl yn talu am wasanaethau cefnogaeth cysylltiedig â thai a chaiff ei dalu i'r sefydliad sy'n rhoi cefnogaeth i chi




Mae cefnogaeth cysylltiedig â thai yn cynnwys:

Help  i gysylltu â phobl eraill fel tai, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, meddygon a'r ganolfan gwaith

Help i wneud yn siŵr fod eich cartref yn ddiogel a chlyd

Help gyda gwaith papur a threfnu arian

# Gweithio gyda'n Gilydd

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud rhai deddfau newydd:

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Deddf Tai (Cymru) 2014

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015




Mae'r deddfau hyn yn dweud fod yn rhaid i wasanaethau fel tai, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, gwasanaeth prawf a'r heddlu gydweithio gyda'r bobl sy'n derbyn gwasanaethau i wneud yn siŵr eu bod yn datblygu'r gwasanaethau mae pobl eu hangen



Cafodd Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent (RCC) ei ffurfio yn 2012 - maent yn gyfrifol am wneud yn siŵr fod prosiectau cefnogaeth cysylltiedig â thai yn cael y canlyniadau cywir ar gyfer y bobl sy'n eu defnyddio yng Ngwent

# Gwasanaethau



Mae 83 o ddarparwyr cefnogaeth ledled Gwent sy'n derbyn £20,629,231 o arian Cefnogi Pobl. Maent yn gweithio'n galed i wneud Gwent yn lle gwell i fyw. Fe wnaeth gwasanaethau yng Ngwent gefnogi 22,826 o bobl yn ystod 2016/2017.



Bydd cefnogaeth yn eich helpu i ganfod cartref

Gall cefnogaeth eich helpu i fyw mewn cartref diogel a thwym

Gall cefnogaeth eich helpu i ddysgu'r sgiliau rydych eu hangen i fyw ar eich pen eich hun neu ofalu am eich cartref




Os ydych wedi bod mewn trafferth gyda'r heddlu, gall cefnogaeth eich helpu i aros allan o helynt

Os ydych yn defnyddio cyffuriau neu alcohol, gall cefnogaeth eich helpu i fyw'n annibynnol a rhoi'r gorau i ddefnyddio cyffuriau neu yfed

# Heriau



Mae llawer mwy o bobl sydd angen derbyn cefnogaeth



Mae'n anos i bobl ddod o hyd i'r cartref maent ei angen

Gyda newidiadau mewn budd-dal, mae pobl yn ei chael yn anos i drin eu harian



Nid oes digon o wasanaethau cefnogaeth ar gael i helpu'r holl bobl sydd angen cefnogaeth

Mae angen i wasanaethau weithio'n well gyda'i gilydd



Nid yw arian bob amser yn cael ei wario yn y ffordd orau

Nid ydym yn derbyn mwy o arian i dalu am y gwasanaethau sydd eu hangen

# Ymgynghoriad

Y ffyrdd y gallwch ddweud beth ydych chi'n feddwl wrth y timau Cefnogi Pobl a'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ar hyn o bryd




Ffyrdd presennol y gallwch ddweud wrth eich Darparydd Cefnogaeth beth ydych chi'n feddwl






Rydyn ni wedi datblygu gwefan i annog mwy o bobl i gymryd rhan a dweud wrthym beth yw eu barn am eu gwasanaethau

www.gwentsupportingpeople.co.uk

# Beth ydyn ni wedi'i wneud?




Rydyn ni wedi datblygu gwasanaethau sy'n gweithio ar draws Gwent

Rydyn ni wedi talu am fwy o wasanaethau sy'n helpu pobl yn eu cartrefi




Rydyn ni wedi edrych ar y gwasanaethau dilynol:

- Gwasanaethau ar gyfer Pobl Hŷn
- Gwasanaethau ar gyfer pobl gydag Anableddau Dysgu




Fe wnaethom gynnal ein digwyddiad rhanbarthol cyntaf ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a lansio'r wefan.




Rydyn ni wedi datblygu llyfryn astudiaethau achos sy'n helpu pobl i ddeall y mathau o wasanaethau yr ydym yn talu amdanynt

# Beth fyddwn ni'n ei wneud?



Byddwn yn datblygu mwy o wasanaethau sy'n gweithio ar draws Gwent



Byddwn yn edrych ar y gwasanaethau dilynol:

- Gwasanaethau ar gyfer pobl gyda phroblemau iechyd meddwl
- Gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc a phobl ifanc sy'n gadael gofal



Byddwn yn cynnal digwyddiad arall rhanbarthol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth




Byddwn yn adolygu'r Cynllun Ymgyfraniad Defnyddwyr Gwasanaeth.

# Gyda phwy y gallaf gysylltu?

Gallwch gysylltu â ni dros y ffôn neu drwy e-bost neu drwy ysgrifennu atom



Cydlynydd Datblygu Rhanbarthol Gwent
E-bost: supporting.people@blaenau-gwent.gov.uk
Ffôn: 01495 355975

Neu ysgrifennu at:

Tîm Rhanbarthol Cefnogi Pobl
Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion
Llys Einion
Stryd yr Eglwys
Abertyleri
NP13 1DB

cefnogi**pobl**
supporting**people**
supporting independence **in Gwent**
cefnogi annibyniaeth **yng Ngwent**